

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU:

ADRAN 1 AC ADRAN 8

Teitl y cynnig:	Rhaglen frechu Feirws Syncytiol Anadlol (RSV) ar gyfer oedolion hŷn (75-79 oed) a babanod i'w gweithredu yn 2024-25.
Swyddog(ion) sy'n cwblhau'r Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Joanne Davies / Sharron Richards Tîm polisi brechu
Adran:	Is-adran frechu
Pennaeth Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):	Tania Nicholson Dirprwy Gyfarwyddwr
Ysgrifennydd y Cabinet/Gweinidog sy'n gyfrifol:	Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Dyddiad Cychwyn:	O hydref 2024

CONTENTS

Adran 1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?.....	3
Adran 8. Casgliadau	7

SECTION 1. WHAT ACTION IS THE WELSH GOVERNMENT CONSIDERING AND WHY?

Mae feirws syncytiol anadlol (RSV) yn feirws asid riboniwcleig (RNA) amlenedig, sy'n perthyn i'r un teulu â'r feirysau parainffliwensa dynol a feirysau clwy'r pennau a'r frech goch. RSV yw un o'r feirysau cyffredin sy'n achosi peswch ac annwyd yn y gaeaf.

Yn fyd-eang, mae RSV yn heintio hyd at 90% o blant o fewn dwy flynedd gyntaf eu bywyd ac yn aml yn ail-heintio plant hŷn ac oedolion. I'r rhan fwyaf o bobl, mae'r haint RSV yn achosi salwch anadlol ysgafn. Babanod o dan flwydd oed a'r henoed sy'n wynebu'r risg fwyaf. Arwyddocâd clinigol RSV mewn babanod yw y gall achosi bronciolitis sy'n arwain at lid y llwybrau anadlu bach ac anawsterau anadlu sylweddol. Mewn oedolion hŷn, mae RSV yn un o brif achosion salwch anadlol aciwt, yn enwedig i'r rhai sy'n byw gydag eiddilwch a chydafiacheddau.

Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) wedi argymhell rhaglen frechu RSV ar gyfer menywod beichiog neu newid i'r driniaeth Gwrthgyrff Monoclonaid (MAb) ar gyfer amddiffyn babanod a rhaglen frechu RSV ar gyfer amddiffyn oedolion hŷn rhwng 75 a 79 oed os gellir caffael cynhyrchion am bris costeffeithiol.

<https://www.gov.uk/government/publications/rsv-immunisation-programme-jcvi-advice-7-june-2023>

Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r 4 gwlad arall, yn cynnig cyflwyno rhaglen(ni) brechu RSV o 2024-25, os ystyrir bod y cynhyrchion yn gosteffeithiol (yn dilyn ymarfer caffael).

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â phedwar o'r nodau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sef:

- Cymru fwy llewyrchus - mae poblogaeth sydd â lefel brechu uchel yn iachach, sydd yn ei dro yn arwain at gyflogaeth uwch a mwy o gynhyrchiant.
- Cymru iachach - drwy gyfrannu at lesiant corfforol a meddyliol pobl.
- Cymru sy'n fwy cyfartal – lle mae plant iachach yn mynd ymlaen i gyrraedd eu potensial waeth beth fo'u cefndir/amgylchiadau.
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang - lle mae brechu yn allweddol i ddiogelwch iechyd byd-eang, mewn byd cydgysylltiedig lle gall achosion o glefyd ledaenu'n gyflym iawn. Gall gwlad sydd â lefelau brechu uchel ymateb yn well i frigiadau o achosion ac argyfyngau iechyd cyhoeddus.

O ran y pum ffordd o weithio, mae'r polisi hwn yn ystyried:

Hirdymor

- Byddai'r rhaglen frechu'n cyfyngu'r gyfradd heintio ac yn lleihau nifer yr achosion difrifol yn y rhai sydd wedi'u himiwneiddio. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd y rhai sydd wedi'u brechu a bydd yn lleihau effaith RSV ar wasanaethau iechyd cyhoeddus yn 2024 ac yn y blynyddoedd i ddod. Hefyd, gellir dysgu gwersi o ddechrau cyflwyno'r rhaglen frechu yn 2024 i lywio'r model mwyaf effeithlon ac effeithiol i'w ddefnyddio wrth symud ymlaen.
- Mae rhaglenni brechu yn darparu rhywfaint o symudedd cymdeithasol, gan nad yw tlodi a'r afiechydon a'r marwolaethau cysylltiedig o glefydau heintus bellach yn penderfynu cyfleoedd bywyd rhywun. Mae gan bobl wedi'u brechu y potensial i gael gwell disgwyliad oes - dangosir hyn yn bennaf gan fabanod a phlant, ond mae pobl o oedrannau eraill yn elwa hefyd.

Atal

- Brechu yw un o'r camau pwysicaf y gallwn eu cymryd ar gyfer ein hiechyd ein hunain, a dyma'r cam ataliol pwysicaf y gall GIG Cymru ei gynnig i bobl yng Nghymru. Nod brechiadau RSV ar gyfer grwpiau bregus yw atal marwolaeth, arosiadau yn yr ysbyty/salwch a lleihau'r baich ar GIG Cymru. Byddai'n cyfyngu ar y gyfradd heintio ac yn lleihau nifer yr achosion difrifol yn y rhai sydd wedi'u himiwneiddio. Bydd hyn yn cael effaith iechyd gadarnhaol ar y rhai sydd wedi'u brechu a bydd yn lleihau effaith RSV ar wasanaethau iechyd cyhoeddus.

Integreiddio

- Mae effaith y rhaglen hon ar raglenni brechu arferol eraill yn 2024 yn cael ei hystyried yn llawn. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio'n agos â Rhaglen Frechu Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn lleihau unrhyw darfu ar ddarpariaeth y GIG. Mae rheolwyr prosiect y Rhaglen Frechu ar gyfer y rhaglenni oedolion a menywod beichiog/babanod wedi'u penodi i werthuso opsiynau i gynllunio ar gyfer proses effeithiol ac effeithlon o gyflwyno'r rhaglen yng Nghymru.

Cydweithio

- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â'r Rhaglen Frechu ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth gynllunio'r gwaith o weithredu'r rhaglen frechu trwy ohebiaeth a chyfarfodydd ar-lein rheolaidd.

Cynnwys

- Gofynnwyd i randdeiliaid perthnasol (cynrychiolwyr plant ac oedolion hŷn) am eu barn er mwyn llywio'r asesiad effaith integredig hwn a byddant yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r polisi ddatblygu. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio argraffiadau'r rhanddeiliaid hyn i lywio penderfyniadau ynghylch sut y bydd rhaglen o'r fath yn cael ei chynnal yng Nghymru erbyn yr hydref 2024.

Effaith

Cadarnhaol

- pwrpas sefydlu'r brechiad RSV hwn (fel pob brechiad) yw ei gael fel mesur ataliol i amddiffyn rhag y feirws RSV - gyda'r nod o gadw unigolion yn ddiogel rhag afiechyd difrifol, arosiadau ysbyty a marwolaeth.
- byddai'r rhaglen frechu'n cyfyngu ar y gyfradd heintio ac yn lleihau nifer yr achosion difrifol yn y rhai sydd wedi'u himiwneiddio. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd y rhai sydd wedi'u brechu a bydd yn lleihau effaith RSV ar wasanaethau iechyd cyhoeddus, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf pan fydd RSV yn fwyaf cyffredin.
- potensial i ddysgu o raglen frechu Covid-19, a gafodd ei chynnal yn gyflym mewn ymateb i'r pandemig, er mwyn llywio'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen. Byddai disgwyl i fyrddau iechyd rannu arloesedd, dysgu ac arferion gorau gyda'i gilydd, er mwyn gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth a chynyddu'r nifer sy'n derbyn brechiad, yn unol â'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol.

Negyddol

- Mae risg o ran derbynioldeb y brechiad a'r nifer fydd yn manteisio arno. Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o risgiau RSV yn isel. Mae tystiolaeth bod y nifer o fenywod beichiog sy'n manteisio ar bob brechlyn yn dirywio (ffliw/ pertwsis).
- Mae risgiau sylweddol o ran gallu GIG Cymru i gyflawni'r rhaglen hon, yn enwedig mewn perthynas â'r gweithlu sydd ei angen a'r ffaith fod yr amserlen ar gyfer cwblhau'r brechiadau yn eithriadol o dynn. Bydd canlyniad yr ymarfer caffael yn hysbys ym mis Mawrth ond ni fyddwn yn gallu hysbysu'r GIG hyd nes dyfarnu'r contract ym mis Mehefin. Mae cynhyrchu'r holl ddeunydd darllen angenrheidiol ar gyfer cleifion a'r holl ganllawiau angenrheidiol ar gyfer brechwyr hefyd yn her, o safbwynt lechyd Cyhoeddus Cymru. Yn yr un modd, bydd cyflwyno'r holl systemau digidol angenrheidiol sydd eu hangen i wahodd y rhai sy'n gymwys i apwyntiadau a chofnodi brechiadau hefyd yn her.

Costau ac Arbedion

- Nid yw tîm Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth (SEA) Llywodraeth Cymru wedi modelu costeffeithiolrwydd brechlynnau yn benodol i Gymru, ond maent yn credu bod y modelau a gomisiynwyd gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) yn edrych yn weddol gadarn. Fel rhan o'u dadansoddiad, daeth y tîm i'r casgliad bod baich clefyd RSV o farwolaeth gynnar yn llawer uwch ymhlith pobl hŷn, tra bod y cyfleoedd i leihau derbyniadau i'r ysbyty yn llawer uwch ymhlith babanod a phlant bach 0-4 oed. Mae brechlynnau RSV yn debygol iawn o fod yn gosteffeithiol i'r ddau grŵp, ond bydd yr arbedion cost ariannol o ganlyniad i lai o weithgarwch ysbyty yn llawer mwy ymhlith babanod a phlant bach 0-4 oed a fydd yn cael budd o'r rhaglen amddiffyn babanod.

- Nid yw'r costau hyn yn cynnwys costau Uned Gofal Dwys, cludiant ambiwlans, gofal cymdeithasol, gofal anffurfiol, na chostau cynhyrchiant (e.e. rhieni'n cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i ofalu am blant sâl), felly mae'r manteision gwirioneddol yn debygol o fod yn uwch. Gall atal RSV gyflwyno manteision ychwanegol i'r GIG drwy leihau'r pwysau yn ystod cyfnod prysuraf y gaeaf.

Mecanwaith

- Nid oes angen deddfwriaeth newydd i gyflwyno'r rhaglen frechu hon yng Nghymru.
- Cyhoeddwyd y [Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol](#) ym mis Hydref 2022 ac mae'n nodi ein cynlluniau i roi gwybod i bobl pa frechiadau y maent yn gymwys i'w cael a sut i'w cael.
- GIG Cymru fydd yn gyfrifol am gyflwyno'r rhaglen, gyda byrddau iechyd yng Nghymru yn datblygu cynlluniau lleol ac yn asesu effaith y cynlluniau hyn.
- Bydd unrhyw benderfyniad i fwrw ymlaen â rhaglen frechu RSV yn cael ei gyfleu ar yr adeg briodol i'r GIG drwy Gylchlythyr Iechyd Cymru a bydd datganiad ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi i hysbysu Aelodau o'r Senedd.
- Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datblygu strategaeth gyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o RSV, rhoi gwybod i unigolion cymwys am fanteision cael y brechiad a sut y bydd y rhai sy'n cael cynnig brechiad yn gallu cael eu brechu.

SECTION 8. CONCLUSION

8.1 Sut mae'r bobl yr effeithir fwyaf arnynt gan y cynnig wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?

Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) wedi argymhell rhaglen frechu RSV ar gyfer menywod beichiog neu newid i'r driniaeth gwrthgyrff Monoclonaid (MAB) ar gyfer amddiffyn babanod a rhaglen frechu RSV ar gyfer amddiffyn oedolion hŷn rhwng 75 a 79 oed os gellir caffael cynhyrchion am bris costeffeithiol.

<https://www.gov.uk/government/publications/rsv-immunisation-programme-jcvi-advice-7-june-2023>

Mae baich sylweddol o salwch RSV ym mhoblogaeth y DU sy'n cael effaith aruthrol ar wasanaethau'r GIG yn ystod misoedd y gaeaf. Mae cyngor y JCVI yn cyfeirio at ddata sy'n awgrymu bod RSV yn cyfrif am tua 33,500 o dderbyniadau i'r ysbyty bob blwyddyn mewn plant o dan 5 oed. Mae'n un o brif achosion marwolaethau babanod yn fyd-eang, gan arwain at 20 i 30 o farwolaethau bob blwyddyn yn y DU. Mae marwolaethau sy'n gysylltiedig ag RSV mewn gwledydd incwm isel yn sylweddol uwch, ac mewn rhai dadansoddiadau dyma'r ail achos mwyaf cyffredin o farwolaethau (ar ôl malaria) mewn babanod.

Nid oes cystal dealltwriaeth ynghylch baich RSV mewn oedolion hŷn ac ystyrir ei fod wedi'i danamcangyfrif mewn gwaith gwyliadwriaeth arferol presennol.

Amcangyfrifodd Sharp¹ fod cyfradd gyfartalog flynyddol derbyniadau i'r ysbyty yn Lloegr sy'n gysylltiedig â haint RSV yn 251 fesul 100,000 ar gyfer y rhai dros 75 oed. Amcangyfrifodd Hardelid² fod yna 4,000 o farwolaethau yn y rhai dros 75 oed bob gaeaf.

Canfu [astudiaeth](#) yn 2015 fod pobl oedrannus risg uchel ddwywaith yn fwy tebygol o gael cyswllt â meddyg teulu oherwydd RSV neu o farw o achosion sy'n gysylltiedig ag RSV na phobl oedrannus risg isel.

Canfu [astudiaeth](#) yn 2016, a oedd yn edrych ar RSV ymhlith plant a phobl ifanc 0-17 oed rhwng 1995 a 2009 yn y DU, fod RSV yn cyfrif am oddeutu 450,000 o apwyntiadau meddyg teulu, 29,000 o dderbyniadau i'r ysbyty ac 83 o farwolaethau y flwyddyn mewn plant a phobl ifanc, y mwyaf mewn babanod.

Canfu'r ddwy astudiaeth fod baich RSV ymhlith plant ac oedolion hŷn yn y DU yn fwy na'r fflw.

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl wrth ymgysylltu â'r cyhoedd a sefydliadau statudol a thrydydd sector amrywiol i gael darlun ymddygiadol o'r rhwystrau, canfyddiadau a phrofiadau mewn perthynas â rhaglenni brechu yng Nghymru. Mae'r

¹ Sharp A ac eraill. Estimating the burden of adult hospital admissions due to RSV and other respiratory pathogens in England.

² Mortality caused by influenza and respiratory syncytial virus by age group In England and Wales 1999 to 2010.

sefydliad yn defnyddio gwahanol offerynnau a dulliau i ymgysylltu'n uniongyrchol â grwpiau i lywio a dylanwadu ar strategaethau cenedlaethol a gwelliannau i wasanaethau. Y nod yw mynd ati i gynnwys gwahanol adrannau o'r cyhoedd, fel grwpiau ethnig lleiafrifol³ wrth ddatblygu adnoddau ac ymyriadau, gyda'r nod o hysbysu a meithrin ymddiriedaeth. Fel rhan o [Werthusiad Adroddiad Astudio o adnoddau gwybodaeth](#) a gyhoeddwyd yn 2023, defnyddiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru grwpiau ffocws a chyfweiliadau manwl gyda defnyddwyr gwasanaethau, i archwilio agweddau tuag at frechiadau, yn ogystal ag ymwybyddiaeth a barn am wybodaeth am frechiadau. Mae cwestiynau RSV hefyd wedi'u cynnwys yn yr 'arolwg Amser i Siarad' nesaf a fydd yn adrodd ym mis Mai 2024. Mae'r arolwg yn casglu barn panel cynrychioliadol cenedlaethol o 2,500 o drigolion ledled Cymru. Drwy rannu eu profiadau a'u barn bob mis, bydd aelodau'r panel yn helpu i lunio polisi a phenderfyniadau iechyd cyhoeddus, ac yn cyfrannu at wella iechyd a llesiant ledled Cymru.

Yn fwy diweddar, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydweithio â thîm Canolfan Genedlaethol Ymchwil Iechyd a Llesiant y Boblogaeth i lunio dau arolwg a fydd yn cael eu dosbarthu drwy eu harolygon sydd eisoes wedi'u sefydlu. Bydd arolwg beichiogrwydd RSV yn cael ei gynnal ochr yn ochr â'u 'harolwg cynenedigol' a bydd yr arolwg cyn ysgol yn cael ei gynnal ochr yn ochr â'u harolwg 'Ganed yng Nghymru'. Nod y gwaith hwn yw casglu canfyddiad o risg ac ati ar gyfer amrywiaeth o glefydau y gellir eu hatal drwy frechu gan gynnwys RSV a defnyddio dull gwyddor ymddygiad trwy COM-B.

Mae gwaith pellach wedi'i gynllunio gan adran gyfathrebu Iechyd Cyhoeddus Cymru ar strategaeth sy'n nodi manteision derbyn brechiad RSV, gan gynnwys gwybodaeth/taflenni wedi'u teilwra ar gyfer grwpiau penodol.

Bydd y negeseuon hyn yn cael eu bwrw ymlaen ar lefel leol gan dimau cyfathrebu byrddau iechyd i gyrraedd eu trigolion.

8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Byddai gweithredu'r rhaglen frechu RSV yn cael effaith gadarnhaol trwy gyfyngu ar y gyfradd heintio a lleihau nifer yr achosion difrifol yn y rhai sydd wedi'u himiwneiddio. Bydd yn lleihau effaith RSV ar wasanaethau iechyd cyhoeddus, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf pan fydd RSV yn fwyaf cyffredin.

Byddai brechiad yn cael ei gynnig i bob unigolyn cymwys waeth beth fo'u rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hil, dewis iaith, anabled, crefydd neu gredoau, statws economaidd-gymdeithasol neu ymlyniad gwleidyddol. Os yw'r rhaglen frechu yn cael ei gweithredu, yna byddai pobl sy'n gymwys yng Nghymru yn cael yr un amddiffyniad ag yng ngwledydd eraill y DU.

Mae risgiau i allu GIG Cymru i gyflawni'r rhaglen hon, yn enwedig o ran y gweithlu sydd ei angen a'r ffaith fod yr amserlen ar gyfer cwblhau'r brechiadau yn eithriadol o dynn. Mae cynhyrchu'r holl ddeunydd darllen angenrheidiol ar gyfer cleifion a'r holl ganllawiau angenrheidiol ar gyfer brechwyr hefyd yn her, o safbwynt Iechyd

³ <https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/gwybodaeth-ymgysylltu/gwerthusiad-o-adnoddau-gwybodaeth-adroddiad-cryno-lleiafrifoedd-ethnig-2023-pdf/>

Cyhoeddus Cymru. Yn yr un modd, bydd cyflwyno'r holl systemau digidol angenrheidiol sydd eu hangen i wahodd y rhai sy'n gymwys i apwyntiadau a chofnodi brechiadau hefyd yn her.

8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,
- yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Rhodddwyd ystyriaeth ddyladwy i'r ffordd y mae'r polisi'n ymwneud â'r nodau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r pum ffordd o weithio. Mae poblogaeth sydd â lefelau brechu uchel yn iachach, yn gorfforol ac yn feddyliol, sy'n cyfrannu at nod Cymru iachach, ac mae pobl iachach yn golygu gweithlu mwy cynhyrchiol a chynhyrchiant uwch sydd wrth reswm yn arwain at Gymru fwy ffyniannus. Mae plant iachach yn mynd ymlaen i gyrraedd eu potensial waeth beth fo'u cefndir/amgylchiadau a fydd yn golygu Cymru fwy cyfartal. Mae brechu yn allweddol i ddiogelwch iechyd byd-eang, mewn byd cydgysylltiedig lle gall brigiad o achosion o glefyd ledaenu'n gyflym iawn. Gall gwlad sydd â lefelau brechu uchel ymateb yn well i frigiadau o achosion ac argyfyngau iechyd cyhoeddus, sy'n arwain at Gymru sy'n fwy cyfrifol ar lefel byd-eang.

O ran y pum ffordd o weithio, mae'r polisi hwn yn ystyried:

Mae rhaglenni brechu yn yr **hirdymor** yn darparu rhywfaint o symudedd cymdeithasol, gan nad yw tlodi a'r salwch a'r marwolaethau cysylltiedig o ganlyniad i glefydau heintus bellach yn benderfynyddion cyfleoedd bywyd rhywun. Mae gan bobl wedi'u brechu y potensial ar gyfer gwell disgwyliad oes - dangosir hyn yn bennaf gan fabanod a phlant, ond mae pobl o oedrannau eraill yn elwa hefyd. Brechu yw un o'r camau pwysicaf y gallwn eu cymryd ar gyfer ein hiechyd ein hunain, a dyma'r cam **ataliol** pwysicaf y gall GIG Cymru ei gynnig i bobl yng Nghymru. Bydd y rhaglen frechu hon yn integreiddio ac yn alinio â newidiadau sydd wedi'u cynllunio i'r amserlen brechu plant. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio'n agos â Rhaglen Frechu Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn lleihau unrhyw darfu ar ddarpariaeth y GIG. Mae Llywodraeth Cymru wedi **cydweithio** â'r Rhaglen Frechu ac Iechyd Cyhoeddus Cymru a bydd yn parhau i wneud hynny wrth gynllunio'r gwaith o weithredu'r rhaglen frechu a monitro ei llwyddiant, trwy ymgysylltu'n rheolaidd. Cafodd rhanddeiliaid perthnasol eu **cynnwys** yn y broses o lywio'r asesiad effaith integredig hwn a byddant yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r polisi ddatblygu. Yn amodol ar gytundeb Gweinidogol, bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â chydweithwyr clinigol a gweithredol er mwyn llywio penderfyniadau ar sut y byddai rhaglen RSV yn cael ei chyflwyno o hydref 2024.

Er mwyn gwneud y gorau o'r manteision a ddisgrifir, rhaid i frechu fod yn hygyrch i bawb.

Er mwyn sicrhau bod cynifer â phosibl o bobl o grwpiau anodd eu cyrraedd yn cael y brechlyn, bydd GIG Cymru yn gweithredu egwyddorion y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2022⁴, sy'n ceisio trawsnewid a gwella'r ddarpariaeth o raglenni brechu ac imiwneiddio ar gyfer pobl Cymru, gyda phwyslais ar gael mwy o bobl i fanteisio ar frechlynnau a sicrhau bod tegwch wrth wraidd y rhaglen.

Wrth gyflwyno'r rhaglen frechu hon, bydd disgwyl i fyrddau iechyd gynneg cefnogaeth wedi'i theilwra i alluogi ac annog grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol i fanteisio ar y cynneg o'r brechiad. Mae hyn yn gofyn am ddull rhagweithiol er mwyn sicrhau:

- Bod pawb sy'n gymwys i gael brechiad yn cael cynneg apwyntiad priodol (ac yn cael eu galw'n ôl pan fo angen) a'u bod yn gallu cael brechiad.
- Bod pawb yn cael eu cefnogi gyda'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniad gwybodus ar frechu yn seiliedig ar ffynonellau dibynadwy.

Dylid gweithredu dan arweiniad lleol i ymgysylltu â chymunedau a'u grymuso i ddeall manteision brechu a chefnogi ac ysgogi eraill yn eu cymunedau i gael eu brechu, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae lefelau brechu'n isel. Disgwylir i fyrddau iechyd ddatblygu Strategaeth Brechu Teg a rhaglen waith gyda mewnbwn iechyd cyhoeddus pwrpasol.

Mae opsiynau brechu hygyrch sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn hanfodol er mwyn cael y nifer mwyaf posibl i fanteisio ar y rhaglen ac felly mae disgwyl i fyrddau iechyd ystyried hyn wrth gynllunio a chyflawni'r rhaglen. Mae dod â brechlynnau mor agos at unigolion â phosibl yn gwella'r nifer sy'n cael eu brechu - cael meddygon teulu i roi brechlynnau drwy ofal sylfaenol yw un o'r ffyrdd mwyaf hygyrch o gael brechiad oherwydd bod meddygfeydd yn tueddu i fod yn agos at ble mae pobl yn byw.

8.4 Sut y caiff effaith y cynneg ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Bydd y broses o weithredu'r rhaglenni brechu/triniaeth RSV yn cael ei monitro gan Raglen Frechu Cymru a fydd yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru drwy'r Bwrdd Goruchwylio Brechu fel rhan o'r trefniadau llywodraethu cenedlaethol.

Mae bwrdd prosiect pedair cenedl wedi'i sefydlu i drafod y gwaith o weithredu'r rhaglen ac i alinio'r ffordd y caiff ei chyflwyno er mwyn sicrhau cysondeb ledled y DU a Gogledd Iwerddon. Bydd y cyfarfodydd hyn yn parhau i fonitro'r cynnydd ynghyd â chyfarfodydd ar lefel swyddogol. Bydd system wylidwriaeth yn cael ei chreu hefyd i gasglu data gan feddygfeydd a gwasanaethau bydwreigiaeth yng Nghymru ar y nifer sy'n manteisio ar y rhaglen, yn unol â rhaglenni brechu eraill.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol y tu hwnt i'r cam gweithredu i fonitro cynnydd a gwerthuso'r cyflwyniad cychwynol. Bydd swyddogion yn parhau i fynychu cyfarfodydd brechu JCVI, fel arsylwyr, i fonitro

⁴ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-10/fframwaith-imiwneiddio-cenedlaethol-cymru.pdf>

unrhyw drafodaeth yn y dyfodol am RSV ac unrhyw newidiadau y gallent eu cynghori.